# Polisi Cydraddoldeb

**Pennaeth**: Miss Siwan Dafydd

**Cadeirydd y Llywodraethwyr**: Mr Daniel Tiplady

**Dyddiad Polisi**: Ionawr 2025

**Cyfrifoldebau**: Pennaeth, UDRh a Llywodraethwyr

**Dyddiad Cynllun Gwreiddiol:** Ionawr 2025

**Adolygiad nesaf**: Ionawr 2026

*GWELEDIGAETH YR YSGOL*

Mae ein cymdeithas yn cynnwys pobl o sawl cefndir gwahanol. Mae'n bwysig paratoi ein disgyblion i fyw, gweithio a ffynnu mewn cymdeithas amrywiol.

## Cyd-destun Ysgol

Ysgol gymunedol un ffrwd yw Ysgol Pencae sy'n gwasanaethu cymuned Llandaf. Mae Pencae yn ysgol cyfrwng Cymraeg ac rydym yn ymfalchio yn ein cymuned agos a chlos ac yn ystyried ein hunain fel ysgol bentref yn y ddinas. Ein nod yw bod pob unigolyn yn teimlo'n hyderus a chyffyrddus fel aelod o'n hysgol arbennig ni.

## Dathlu ein Cynefin

Yma ym Mhencae rydym yn croesawu pob un plentyn a theulu boed beth bynnag eu cefndir; rydym yn dathlu amrywiaeth. Chwiliwn am bob cyfle i ddathlu'r amrywiaeth sydd gennym ni trwy weithgareddau bwriadus, wythnosau dathlu a dyfnhau dealltwriaeth, trefnu amryfal ymwelwyr sydd o ddiwylliannau a chefndiroedd gwahanol a chydnabyddwn ddigwyddiadau lleol a byd-eang er mwyn sicrhau bod ein disgyblion yn derbyn y sail orau i fod yn ddinasyddion egwyddorion a moesol sydd yn trin eraill gyda chwrteisi a pharch. Teimlwn ei bod hi'n ddyletswydd arnom ni i gynnig y profiadau hyn i'n disgyblion.

## Amcanion

Rydym yn cydnabod ac yn dathlu'r ffaith bod ein cymuned yn cynnwys pobl o gefndiroedd a phrofiadau bywyd amrywiol. Pwrpas ein Polisi a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) yw cyflawni'r dyletswyddau i hyrwyddo cydraddoldeb a gwreiddio tegwch a chydraddoldeb wrth galon ein cymuned ysgol ac ym mhob agwedd ar ein cynlluniau a'n polisïau ysgol. Ein gobaith yw:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon
- Cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng gwahanol grwpiau
- Meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau

Mae'r nodau hyn yn adlewyrchu'r Dyletswyddau Cyffredinol sy'n ofynnol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rydym wedi seilio ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o fewn Addysg.

Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol yw:

1. Pobl: Ymwreiddio meddylfryd ac hyder holl gymuned yr ysgol mewn cydraddoldeb

2. Cwricwlwm: Cyfoethi darpariaeth cydraddoldeb cwricwlwm yr ysgol
3. Cwricwlwm: Datblygu Cwricwlwm Crefydd, Moeseg a Gwerthoedd yr ysgol

## I bwy mae'r polisi'n bwrpasol?

Mae'r polisi'n berthnasol i bob un llawn amser, rhan amser, sy'n rhannu swydd, staff parhaol, dros dro a chyflenwi. Mae'n berthnasol i bob disgybl, rhiant, defnyddiwr gwasanaeth ac ymwelwyr â'r ysgol yn unol â deddfwriaeth Cydraddoldeb a chyfrifoldebau cyfreithiol yr ysgol i hyrwyddo cydraddoldeb mewn cyflogaeth, addysg a mynediad at wasanaethau. Gyda'r polisi hwn, mae'r ysgol a'i chymuned yn ymrwymo'n llwyr i beidio derbyn unrhyw wahaniaethu o ran cydraddoldeb. Byddwn yn gweithredu agwedd o ddim goddefgarwch wrth ymdrin ag achosion o wahaniaethu.

## Datganiad Cydraddoldeb

Yn Ysgol Pencae, ein nod yw darparu amgylchedd hapus a gofalgar ble gall pob plentyn deimlo'n hyderus a llwyddo i ddysgu o ganlyniad. Rydym yn ceisio meithrin amgylchedd o barch a chefnogaeth ar y cyd rhwng yr holl staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr a'r gymuned ehangach.

Mae ein hysgol wedi ymrwymo i ddileu unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon ar sail

- oed.
- ailbennu rhywedd.
- bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil.
- bod yn feichiog neu ar gyfnod mamolaeth.
- anabledd.
- hil gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, ethnig neu genedlaethol.
- crefydd neu gred.
- rhyw.

drwy greu amgylchedd lle mae pob unigolyn, waeth beth fo'u gallu neu gefndir, yn gallu cymryd rhan ac yn cael ei werthfawrogi'n llawn fel aelod o gymuned yr ysgol. Gan ein bod yn gwrthwynebu pob math o wahaniaethu a rhagfarn, rydyn ni'n hyrwyddo agwedd bositif tuag at wahaniaethau ac yn disgwyl parch at bobl o bob cefndir.

Mae gwerthoedd yr ysgol yn parchu pob unigolyn a thrwy'r parch hwn yn anelu at ddarparu delweddau cadarnhaol, sy'n herio ystrydebau a gwahaniaethu sydd o ganlyniadau yn dyfnhau dealltwriaeth ein holl gymunedau o'i gilydd.

Ni fydd unrhyw iaith neu ymddygiad sy'n hiliol, rhywiaethol, homoffobig, neu a allai fod yn niweidiol i unrhyw grŵp yn cael ei oddef a bydd yn cael ei herio a'i monitro. Bydd gwybodaeth sy'n deillio o fonitro yn cael ei defnyddio i gynllunio strategaethau ysgol gyfan i fynd i'r afael â digwyddiadau. Bydd gwybodaeth am ddigwyddiadau a bwlio sy'n seiliedig ar hunaniaeth yn cael ei rhannu'n

rheolaidd gyda'r awdurdod Lleol i helpu camau i fynd i'r afael â throseddau casineb ar draws y Ddinas.

## Cyfrifoldebau - Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**Ymrwymiad**

Bydd Corff Llywodraethol ac uwch dîm rheoli yr ysgol yn gweithio gyda'u holl bartneriaid i fod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, meithrin cysylltiadau da ac wrth fynd i'r afael â gwahaniaethu anghyfreithlon. Byddant yn annog cefnogaeth ac yn galluogi pob disgybl ac aelod o staff o bob nodwedd warchodedig i gyrraedd y safonau uchaf posibl.

**Pennaeth**

Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod y Cynllun Cydraddoldeb ar gael yn rhwydd, ynghyd â pholisïau cysylltiedig, e.e. Polisi "Parchu Eraill (gwrth-fwlio)", etc a bod llywodraethwyr, staff, disgyblion, rhieni a gwarcheidwaid yn gwybod amdano.
- Sicrhau bod y polisi a'i weithdrefnau'n cael eu dilyn.
- Cynhyrchu gwybodaeth reolaidd i staff a llywodraethwyr am sut mae'r polisi yn gweithio a darparu hyfforddiant iddynt ar y polisi os oes angen.
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn gwybod ei gyfrifoldebau ac yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth wrth gyflawni'r rhain.
- Cymryd camau priodol mewn achosion o aflonyddu a gwahaniaethu.
- Sicrhau bod y Cynllun Cydraddoldeb yn cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd.
- sicrhau bod paneli recriwtio yn cael eu llywio yn briodol gan sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu na unigolyn o dan anfantais.
- Sicrhau ecwiti i bob aelod o'r gymuned.

**Y person a enwir sy'n gyfrifol am ddelio â digwyddiadau o wahaniaethu anghyfreithlon a adroddwyd yw Siwan Dafydd.**

Mae staff a disgyblion yn ymwybodol o bwy yw'r person sy'n cael ei enwi. Mae'r person a enwir yn sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau a adroddir yn cael eu cofnodi yn My Concern o dan y labeli priodol, sy'n cael ei ddadansoddi yn yr ysgol. Bydd gan yr Awdurdod fynediad at y labeli a gofnodir yn unig a defnyddir rhain er mwyn caffael adlewyrchiad o'r ysgol / ddinas.

**Y Cydlynwyr Cyfle Cyfartal yw Siwan Dafydd ac Aled Thomas.** Mae'r Cydlynydd Cyfle Cyfartal yn sicrhau bod yr ysgol yn adolygu ac yn gwerthuso'r holl bolisïau ac arferion yn rheolaidd mewn perthynas â Chyfleoedd Cyfartal, gan arwain at osod targedau sy'n mynd i'r afael ag agweddau ar anghydraddoldeb neu anfantais ym mhob un o weithgareddau'r ysgol.

**Mae'r staff i gyd** yn gyfrifol am:

- Delio a chofnodi (trwy My Concern) digwyddiadau o wahaniaethu a bwlio anghyfreithlon
- Gallu adnabod a mynd i'r afael â rhagfarn ac stereoteipio
- Hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da rhwng pob grŵp
- Gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gyfraith ar wahaniaethu, a chymryd cyfleoedd hyfforddi
- Ymdrechu i ddarparu profiadau cwricwlaidd, cynlluniau gwersi, delweddau a thestunau sy'n dangos delweddau cadarnhaol o, ac sy'n gynhwysol o, bobl a chanddynt nodweddion sydd wedi eu hamddiffyn.
- Sicrhau ecwiti i bob aelod o'r gymuned.

Mae **ymwelwyr** yn gyfrifol am:

- gydymffurfio gyda pholisi a chynllun cydraddoldeb yr ysgol. Bydd y Pennaeth yn delio gydag unrhyw anghydffurfio a byddwn yn gofyn i'r ymwelydd adael y safle.

## Casglu ac Ymgysylltu â Gwybodaeth

Mae casglu gwybodaeth yn hanfodol i'n cefnogi wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd i wella cydraddoldeb a chael gwared ar wahaniaethu o fewn cymuned yr ysgol. Wedi hynny, mae'r wybodaeth yn ein helpu i adolygu ein perfformiad, felly mae angen iddo fod yn ddigon manwl i'n galluogi i fesur sut rydym yn cyflawni ar ddyletswyddau cydraddoldeb. Mae'r wybodaeth hefyd yn ein helpu i wneud asesiadau effaith cywir a nodi pa un o nodau'r ysgol sydd wedi'u cyflawni a'r hyn y mae angen i ni ei wneud yn well. Rydym yn denfyddio:

-Cyrhaeddiad a chynnydd disgyblion o wahanol grwpiau

-Data gwaharddiadau fesul grŵp

-Cofnodion o fwlio ar sail cydraddoldeb

-Llais y Plentyn, Llais y Staff, Llais y Gymuned

-Barn y Corff Llywodraethol

-Canlyniadau yn dilyn digwyddiadau cymunedol

-Canlyniadau gweithgareddau a gynllunir gyda theuluoedd sydd yn gweld hi'n anodd i ymgysylltu

-Holiaduron plant, holiaduron staff, holiaduron rhieni

-Data recriwtio a datblygiad proffesiynol

-Adborth gan Asiantaethau Allanol

Mae'r ymgysylltu uchod yn seiliedig ar y wybodaeth a gafwyd am gynrychiolaeth o wahanol grwpiau. Ein nod yw gwneud hyn mor llawn â phosibl. Y rheswm bod y weithgarwch hwn yn bwysig yw er mwyn deall ystod lawn anghenion cymuned yr ysgol.

## Cyhoeddi ac adrodd

Mae'r ysgol yn cyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar wefan yr ysgol ac mae ar gael i rieni ar gais. Mae prosbectws yr ysgol yn cynnwys cyfeiriad at y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r gwerthoedd sy'n sail iddo.

Byddwn ni'n adrodd fel rhan o adroddiad blynyddol y Llywodraethwyr ar y cynnydd a wnaed ar y cynllun gweithredu.

## Monitro ac Adolygu

Byddwn yn ailedrych ar yr wybodaeth a'r data a ddefnyddir i nodi blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gan gynnwys data cyflawni ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Byddwn ni'n defnyddio Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau bod camau a gymerir yn cael effaith gadarnhaol ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig, bod hyrwyddo cydraddoldeb wrth wraidd cynllunio ysgolion a bod gwahaniaethu'n cael ei ddileu'n effeithiol.

Bydd y Corff Llywodraethol yn cynnal adolygiad o'r Cynllun a'r polisi bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn gyfredol.